Elfen 4 - Asesu

4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

4a-1	Dibynadwyedd		
	Lefel 5	Ni cheir systemau cydlynol ar gyfer asesu gallu TGCh disgyblion yn ddibynadwy. Anaml iawn y bydd asesu a monitro gwaith TGCh.	
	Lefel 4	Ceir peth asesu a chofnodi gallu mewn TGCh, ond mae'n anghyson, heb ei gydlynu ac yn anaml yn cynnwys cymhwyso TGCh mewn pynciau eraill. Ceir amrywiaeth mawr mewn arfer.	
	Lefel 3	Asesir a chofnodir gallu mewn TGCh ac mae'n cynnwys defnyddio TGCh mewn rhai pynciau eraill, ond ceir amrywiaeth yn yr arfer.	
	Lefel 2	Mae gallu mewn TGCh yn cael ei asesu a'i gofnodi'n ddibynadwy ac yn gyson ac fe'i cefnogir gan asesu mewn meysydd cwricwlaidd eraill. Ceir peth safoni yn yr ysgol.	ict
	Lefel 1	Mae asesu a chofnodi ar gyfer TGCh yn ddibynadwy ac yn gyson ac yn cynnwys gallu ar draws y cwricwlwm fel mater o drefn. Mae safoni yn digwydd yn yr ysgol a rhwng ysgolion.	

4a-2	Hunanasesu ac asesu cyfoedion		
	Lefel 5	Anaml iawn y bydd disgyblion yn hunanasesu neu'n asesu cyfoedion o ran eu gallu TGCh.	
	Lefel 4	Mae disgyblion yn ymwneud â pheth hunanasesu o ran eu gallu TGCh, ond mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ac yn gyfyng iawn ar sgiliau a ddiffinnir gan yr athrawon. Mae'r effaith ar wella yn gyfyngedig.	
	Lefel 3	Mae disgyblion yn dechrau defnyddio'u meini prawf eu hunain ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion o ran gallu TGCh. Mae hyn weithiau'n eu helpu i ddeall sut gellir gwella eu gwaith.	
	Lefel 2	Mae disgyblion yn ymwneud ag asesu eu gwaith TGCh hwy ac eraill yn rheolaidd a hynny wedi'i seilio ar feini prawf a nodwyd ac a ddatblygwyd ganddynt. Mae hyn yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o'r hyn yw safon dda ac yn eu helpu i wella.	ict
	Lefel 1	Cwblheir hunanasesu ac asesu cyfoedion effeithiol a chywir yn systematig. Mae'n rhan hanfodol o ddysgu'r disgyblion yn yr ysgol a'r tu allan, ac asesu eu gallu TGCh.	

4a-3	Deialog		
	Lefel 5	Nid oes gan lawer o'r staff yr arbenigedd i'w galluogi i gynnal deialog â disgyblion ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh, oni bai ar lefel arwynebol.	
	Lefel 4	Gall rhai staff gael deialog â'r disgyblion i'w helpu i wella, ond mewn rhai agweddau'n unig ar eu gwaith TGCh. O ganlyniad mae'r effaith ar y ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn gyfyngedig.	
	Lefel 3	Mae rhai staff yn gallu cynnal deialog â'r disgyblion sy'n eu helpu i wella wrth iddynt ddefnyddio TGCh, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol.	
	Lefel 2	Mae staff yn gallu cynnal trafodaethau rheolaidd a gwybodus gyda disgyblion ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh a sut i wella.	ict
	Lefel 1	Mae staff yn hyderus ac yn gymwys i ddarparu adborth manwl o safon. Maent yn cael deialog effeithiol iawn gyda disgyblion yn rheolaidd ynghylch y ffordd y maent yn defnyddio TGCh, a hynny'n arwain at dargedau clir ar gyfer gwelliant.	

Elfen 4 - Asesu
4a Asesu TGCh ac asesu gyda TGCh

4a-4	Defnyddio TGCh i gefnogi asesu		
	Lefel 5	Ni ddefnyddir TGCh i gefnogi gweithdrefnau asesu.	
	Lefel 4	Mae rhai staff yn dechrau defnyddio TGCh i gefnogi asesu a chofnodi cyflawniad disgyblion.	
	Lefel 3	Mae llawer o'r staff a'r disgyblion yn defnyddio TGCh i gefnogi asesu a chofnodi cyflawniad. Mae disgyblion yn datblygu ffyrdd o gofnodi'r cyflawniadau hyn.	
	Lefel 2	Mae'r rhan fwyaf o staff a disgyblion fel mater o drefn yn defnyddio ystod o dechnolegau ac arferion i wella asesu a chofnodi cyflawniad. Mae'r ysgol yn ymwybodol o fanteision storio gwaith disgyblion ar-lein.	ict
	Lefel 1	Mae'r holl staff, fwy neu lai, yn defnyddio ystod o dechnolegau ac arferion dychmygus yn systematig i wella asesu a chofnodi cyflawniad yn sylweddol. Mae disgyblion yn gallu cyrchu storio ar-lein i'w galluogi i gofnodi a storio eu gwaith.	

4a-5	Targedau TGCh ar gyfer gwella		
	Lefel 5	Nid yw targedau cyrhaeddiad TGCh yn cael eu pennu ar gyfer yr ysgol nac unigolion.	
	Lefel 4	Pennir targedau TGCh ar gyfer yr ysgol ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ysgogi gwelliannau ar gyfer disgyblion unigol.	
	Lefel 3	Pennir targedau ar gyfer gallu TGCh ar gyfer yr ysgol ac unigolion a cheir peth olrhain o gynnydd disgyblion unigol yn ôl y rhain.	
	Lefel 2	Mae'r ysgol yn pennu ac ar y cyfan yn cyrraedd targedau TGCh ysgol gyfan ac unigolion heriol. Mae cynnydd disgyblion yn cael ei olrhain yn rheolaidd.	ict
	Lefel 1	Mae'r ysgol yn pennu ac yn cyrraedd targedau TGCh ysgol gyfan ac unigolion heriol. Mae cynnydd unigolion yn cael ei olrhain yn systematig ac yn drwyadl.	